# Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ(3)1137(FM) a gyhoeddwyd gan Rhodri Morgan, y Prif Weinidog, Gorffennaf 2008

**At Kirsty Williams:**

Rwy'n ysgrifennu atoch yn dilyn eich sylwadau diweddar yn ystod Cwestiynau'r Prif Weinidog ar 24 Mehefin ynghylch band eang mewn ardaloedd gwledig.

O ran y mater cyntaf y sonioch amdano ynghylch cwmpas band eang yn yr Alban o'i gymharu â Chymru, yn anffodus mae BT wedi'n hysbysu nad oes unrhyw dystiolaeth am hyn ar wefan BT yr Alban neu gan weithwyr BT yr Alban. Mae BT yn nodi mai egwyddor sylfaenol band eang yw cwmpas ac ansawdd y cebl copr sy'n darparu'r gwasanaeth hwn. Yn ôl deddfau ffiseg, nid oes modd defnyddio signal band eang ar ôl 5 cilometr. Mewn rhai achosion, os yw ansawdd y cebl copr yn arbennig o dda ac nad yw wedi torri erioed neu erioed wedi cael ei drwsio, mae achosion lle mae band eang wedi teithio hyd at 8 cilometr o'r gyfnewidfa ffôn, ond ddim pellach.

Fodd bynnag, fe wyddoch fod nifer fach o gartrefi a busnesau mewn rhai rhannau o Gymru sy'n wynebu anawsterau o hyd wrth geisio cael gwasanaeth band eang sylfaenol. Gall eich etholwyr nodi nad ydynt yn gallu cael gwasanaethau band eang ar wefan cofrestru ardaloedd digyswllt Llywodraeth Cynulliad Cymru, sef www.bnrw.org.uk, neu drwy ffonio 01443 846700.

Mae BT wedi datblygu cynigion ar gyfer nifer o ardaloedd digyswllt penodol y mae'n credu y gall eu rhoi ar waith o dan delerau'r contract presennol. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ystyried y cynigion hyn yn ofalus ac mae'n ceisio cyngor cyfreithiol ar hyn o bryd i sicrhau bod modd eu rhoi ar waith o dan delerau'r contract presennol. Byddwn yn cyhoeddi manylion yr ardaloedd penodol ar ôl cwblhau manylion y contract. Yn y cyfamser, mae'r gwaith paratoi yn mynd rhagddo i gaffael darparwr neu gonsortia telathrebu newydd i fynd i'r afael â'r ardaloedd digyswllt sydd ar ôl yng Nghymru, gan gynnwys Brycheiniog a Maesyfed. Y gobaith yw y bydd modd hysbysebu'r broses gaffael hon yn y misoedd nesaf ar ôl cael pob caniatâd cyfreithiol angenrheidiol.

Mae modd darparu band eang drwy amryw fathau o dechnoleg. Mae gan bob un ei rhinweddau a'i chyfyngiadau. Hoff ddull Llywodraeth Cynulliad Cymru o ddarparu band eang yw'r dull 'niwtral o ran technoleg'. Rydym o'r farn y bydd y dull hwn yn annog dulliau arloesol gan y diwydiant, gan sicrhau y doir o hyd i'r ateb gorau ar gyfer pob ardal ddigyswllt.

Rydym yn deall bod mynediad helaeth i fand eang fforddiadwy a diogel yn bwysig i fusnesau a diogel yn nhrefi a chefn gwlad Cymru. Rydym yn gweithio gydag Ofcom, y diwydiant telathrebu a'r rheolydd cyfathrebu i rannu gwybodaeth am broblemau'r seilwaith cyfathrebu, deall y rhwystrau i fuddsoddiad, gan gynnwys materion rheoleiddio, economaidd a chynllunio, a llywio'r broses o lunio polisïau yn y maes hwn yn y dyfodol.

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ(3)1142(FM) a gyhoeddwyd gan Rhodri Morgan, y Prif Weinidog, Gorffennaf 2008

**At Jonathan Morgan:**

Ysgrifennaf atoch yn dilyn sesiwn Cwestiynau'r Prif Weinidog ar 24 Mehefin, lle y bu i chi gyfeirio at gyhoeddiad diweddar Sefydliad Iechyd y Byd a oedd yn cynnwys arolwg o ymddygiad iechyd mewn plant oedran ysgol. Nododd yr arolwg fod mwy o blant o dan 13 oed yng Nghymru wedi bod yn feddw ar o leiaf 2 achlysur nag mewn unrhyw wlad arall yng Ngorllewin Ewrop. Bu i chi ofyn beth y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn mynd i'w wneud ar lefel ymarferol i geisio lleihau'r nifer o blant sy'n defnyddio alcohol yng Nghymru cyn iddynt gyrraedd 18 oed.

Mae ffigurau Cymru yn yr adroddiad yn achos cryn bryder. Mae ffigurau meddwdod Cymru yn gymharol uchel ar gyfer pob un o'r 3 grŵp oedran, a ffigurau Lloegr a'r Alban yn agos. Mae'r ffigurau, a gasglwyd yn 2005-06, yn uchel hefyd yng nghyd-destun yfed bob wythnos ymhlith plant rhwng 13 a 15 oed. Fodd bynnag, yn ystod y blynyddoedd diweddar mae tystiolaeth yn dangos bod gostyngiad wedi bod yng nghyfran y rhai sy'n yfed yn rheolaidd, ac yn nifer yr adroddiadau am feddwdod.

Mae angen astudio'r adroddiad a'i ganfyddiadau yn fanylach, a bydd yn ein helpu i baratoi polisi effeithiol. Cafodd Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau Cymru ei lansio at ddibenion ymgynghori yn gynharach eleni. Mae mynd i'r afael â chamddefnyddio alcohol yn un o'r prif flaenoriaethau o safbwynt plant a phobl ifanc. Rydym eisoes yn addysgu am alcohol drwy gyfrwng Rhaglen Ysgolion Cymru Gyfan. Mae'r elfen hon yn cael ei datblygu ymhellach ar hyn o bryd. Yn ogystal â hynny, byddwn yn canolbwyntio'n fwy mewn ysgolion ar y gwaith o atal pobl ifanc rhag camddefnyddio alcohol, ac yn ystyried sut y gellir rhoi cymorth ac arweiniad i golegau, prifysgolion a gweithleoedd.

Rydym hefyd yn awyddus i atal plant rhag cael gafael ar alcohol ac rydym am sicrhau bod y rhai sy'n gwerthu alcohol i blant dan oed, a'r rhai sydd dros 18 oed ac sy'n prynu alcohol ar ran plant ifanc, yn cael eu cosbi. Mae llawer o bwerau ar gael i asiantaethau amrywiol allu mynd i'r afael a'r mater hwn, ac rydym am sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio'n llawn. Byddwn hefyd yn gweithio gyda Llywodraeth y DU, ac yn ei lobïo, er mwyn cael mwy o reolaeth ar faint o alcohol sydd ar gael.

Mae'n hanfodol inni fynd i'r afael â chamddefnyddio alcohol ymhlith ein plant a'n pobl ifanc. Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gwneud popeth o fewn ei gallu ond bydd hefyd angen mewnbwn gan ffynonellau eraill fel y GIG, llywodraeth leol, ysgolion, teuluoedd, y gymuned ehangach a'r diwydiant alcohol.